Llesiant Creadigol: Cwrs Cadw Dyddlyfr Celf





Fydd dim angen i chi ddod â dim byd gyda chi i'r sesiwn ar-lein hon, bydd popeth yn cael ei ddarparu.

Manylion y digwyddiad hwn

Rydyn ni'n gweithio i greu Dyddlyfr Celf sy'n canolbwyntio ar un teitl bob wythnos, sef Nodau, Dyheadau, Llesiant ac Angerdd.

Bydd pob sesiwn yn dechrau gydag ymarfer myfyrdod bach dan arweiniad – byddwn wedyn yn dechrau gweithio ar dudalennau'r dyddlyfr drwy adeiladu haenau o lif a chwilfrydedd mewn paent acrylig. Gan ddefnyddio bysedd, brwshys, lliw, creu a diddymu ffurf, byddwn yn dysgu sut mae mynegi'n greadigol heb ddefnyddio'r meddwl i farnu beth fydd y canlyniad na beth i'w wneud nesaf.

Ceir arweiniad, techneg ac awgrymiadau drwy gydol pob sesiwn i sicrhau bod llinyn y thema'n datblygu.
Mae hyn yn arwain at faeth creadigol ac yn gwella llesiant.

Bydd sesiynau'n cael eu cynnal dros Zoom a bydd yr holl fanylion yn cael eu hanfon mewn e-bost cadarnhau wrth archebu.
Dyma ddyddiadau'r sesiynau:

Dydd Mercher 5ed Hydref - 6:30 pm i 8:30 pm
Dydd Mercher 12eg Hydref - 6:30 pm i 8:30 pm
Dydd Mercher 19fed Hydref - 6:30 pm i 8:30 pm
Dydd Mercher 26ain Hydref - 6:30 pm i 8:30 pm

(Yn gyffredinol bydd y sesiynau yn cael ei rhedeg drwy gyfrwng y Saesneg)

ebost:
mscymru@mssociety.org.uk